# PWYLLGOR SAFONAU

# DYDD LLUN, 22 EBRILL 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd M. Dodd (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
C. Davies D. Evans P. Rogers

**Aelodau Annibynnol (Yn rhithwir):**
F. Phillips G.B. Thomas

**Cynghorwyr (Yn y Siambr)**
B. Jones

**Cynghorwyr (Yn rhithwir)**
G.B. Thomas

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr D. Cundy a D. Price mewn cysylltiad ag eitem 4 ar yr agenda.

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 2.00 - 3.00 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J Tremlett, Arweinydd Grŵp Annibynnol y Cyngor, a oedd wrthi'n ymwneud â mater arall yn gysylltiedig â gwaith y Cyngor.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 4 MAWRTH 2024

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2024 yn gofnod cywir.**

## 4. CYFARFOD AG ARWEINWYR GRWPIAU GWLEIDYDDOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Darren Price, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru'r Cyngor, a'r Cynghorydd Deryk Cundy, Arweinydd Grŵp Llafur y Cyngor, a wahoddwyd i'r cyfarfod mewn cysylltiad ag eitem 4 ar yr agenda – Cyfarfod ag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol. Dywedodd er nad oedd y Cynghorydd Tremlett yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, ei bod wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig a dywedodd y byddai'n gallu mynychu cyfarfod yn y dyfodol pe bai'r pwyllgor yn dymuno iddi wneud hynny.

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ystyriodd y Pwyllgor a oedd yr Adroddiadau Blynyddol a gafwyd gan arweinwyr tri Grŵp gwleidyddol y Cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 2021 i:

- cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau a;
- chydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau.

Roedd y Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar y Pwyllgor Safonau i fonitro cydymffurfiaeth gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol y cyngor o ran eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, a chyhoeddi adroddiad blynyddol y mae'n rhaid iddo gynnwys asesiad y pwyllgor o ran i ba raddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 2021.

Roedd canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymhelaethu ar y dyletswyddau hyn ac yn nodi y dylai Arweinwyr Grwpiau gwrdd â'r Pwyllgor Safonau cyfan ar ddechrau bob blwyddyn i gael trafodaeth.

(1) amlder y cyfarfodydd rhwng y Pwyllgor ac Arweinwyr Grwpiau yn ystod y flwyddyn,
(2) cydymffurfiaeth yr Arweinwyr Grwpiau â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 2021,
(3) y broses adrodd flynyddol a
(4) unrhyw faterion sy'n codi yn sgil dadansoddi cwynion mewn perthynas â safonau ymddygiad.

Yn unol â'r gofynion uchod, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan y Cynghorydd Price a'r Cynghorydd Cundy ar eu hadroddiadau blynyddol a'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf 2021 gan drafod y materion canlynol:-

- Cyfeiriwyd at yr Hyfforddiant Côd Ymddygiad a ddarperir i aelodau etholedig a pha mor aml y darperir yr hyfforddiant. Teimlwyd y dylai pob aelod newydd gael hyfforddiant yn dilyn eu hethol, a dylai cynghorwyr sy'n dychwelyd dderbyn hyfforddiant gloywi. Wedi hynny, mynegwyd barn y dylid darparu hyfforddiant gloywi i bob aelod hanner ffordd drwy'r cyfnod etholiadol, a allai gynnwys darpariaeth ar-lein.
- O ran amlder cyfarfodydd rhwng yr Arweinwyr Grwpiau a'r Pwyllgor, mynegwyd y dylid eu cynnal yn flynyddol.

- Cyfeiriwyd at astudiaethau achos a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Safonau ar ganlyniad ymchwiliadau i gwynion a wnaed yn erbyn aelodau etholedig ledled Cymru, boed hynny'n dilyn gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau neu wrandawiadau Panel Dyfarnu Cymru. Teimlwyd y byddai dosbarthu'r adroddiadau hynny i aelodau etholedig y Cyngor o fudd fel dull o ddysgu ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â chwynion yn ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd y Swyddog Monitro y gellid gwneud trefniadau er mwyn i'r Arweinwyr Grwpiau gael dolen i Agenda'r Pwyllgor Safonau pan oedd astudiaethau achos yn cael eu hystyried i'w dosbarthu i'w haelodau ar ôl hynny.
- Gwnaed sawl cyfeiriad at ddefnydd aelodau etholedig o'r Cyfryngau Cymdeithasol a'r angen i aelodau fod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r platfform hwnnw.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn bod yr adroddiadau blynyddol a gyflwynwyd gan dri Arweinydd Grŵp Gwleidyddol y Cyngor yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**

**5. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

| | |
|---|---|
| ________________________ | __________________ |
| **CHAIR** | **DATE** |